

ARIANNU BUSNES
CYMUNEDOL GYDA

Chyfranddaliadau Cymunedol



Cyflwyniad: chwilio am fuddsoddiad cymunedol

Mae Cyfranddaliadau Cymunedol yn fath unigryw o gyfalaf cyfranddaliadau heb ei reoleiddio sy'n benodol i Gymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol. Maent yn caniatáu i Gymdeithasau werthu cyfranddaliadau i'r cyhoedd heb fod angen eu rhestru ar gyfnewidfa stoc na chydymffurfio â chyfreithiau hyrwyddo buddsoddiadau. Mae hyn yn gwneud codi arian ar gyfer eich busnes cymunedol drwy werthu Cyfranddaliadau Cymunedol yn gymharol syml, ac yn sicr, yn gost effeithiol.

Maent yn fuddsoddiadau sydd â 'risg' ac nid yw cyfranddalwyr yn gymwys am unrhyw warantau diogelu buddsoddiadau a dylent gael cyngor proffesiynol cyn buddsoddi os ydynt yn ansicr o'r risg i'w harian.

Mae Cyfranddaliadau Cymunedol yn caniatáu i bobl fuddsoddi eu harian mewn busnes y maent yn berchen arno, cymryd rhan wrth redeg y Gymdeithas gyda llais cyfartal, elwa ar log cyfyngedig, cael eu harian yn ôl os ydynt ei angen a gallent elwa o ryddhad treth mewn rhai amgylchiadau.

Rhaid i chi gael y strwythur cyfreithiol priodol (Cymdeithas) i gyhoeddi cynnig cyfranddaliadau cymunedol, y gellir ei ddisgrifio fel buddsoddiad cymunedol. Mae buddsoddiad cymunedol yn ymwneud ag ymgysylltu â chymunedau i fuddsoddi ynddynt eu hunain. Drwy harneisio pŵer buddsoddi cymunedau, gellir codi symiau cymharol fawr o gyfalaf gan lawer o aelodau'r gymuned.

Mae buddsoddiad cymunedol yn grymuso cymunedau drwy roi llais uniongyrchol i aelodau – fel rhan-berchnogion – yn llwyddiant busnes, a'u hannog i chwarae rhan weithredol yn ei ddyfodol.

Bydd eich aelodau yn dod yn gwsmeriaid i chi, eich gwirfoddolwyr, eich staff, eich eiriolwyr

Mewn rhai achosion, gellir codi arian o gyfranddaliadau cymunedol yn llawer cyflymach nag arian drwy grantiau neu ddigwyddiadau codi arian. Mae hyn yn gwneud y math hwn o gyllid yn addas ar gyfer prosiectau sydd â chyfyngiadau amser a gall hefyd ddenu cyllid grant cyfatebol.

Efallai y gallwch ofyn i ddarpar fuddsoddwyr addo swm y byddent yn fodlon ei fuddsoddi cyn cynnig cyfranddaliadau cymunedol ffurfiol. Byddai hyn yn rhoi rhyw syniad i chi o'r swm y gallech ei godi i brofi hyfywedd eich cynllun busnes a phenderfynu a yw eich busnes cymunedol yn ymarferol.

Cynnwys

Cyflwyniad: chwilio am fuddsoddiad cymunedol	2
Cyfranddaliadau cymunedol a strwythur cyfreithiol	5
Y broses o wneud penderfyniadau	6
Nodweddion hollbwysig y cynnig cyfranddaliadau	7
Amseru'r cynnig a gofyn am addewidion	9
Cyllido torfol	11
Marc Safonol Cyfranddaliadau Cymunedol	12
Rhestr wirio	12
Canllaw cam wrth gam i ysgrifennu dogfen cynnig cyfranddaliadau	14
A yw eich dogfen yn gyflawn?	21
Rhestr wirio	21
Rhyddhad treth ar gyfranddaliadau cymunedol	22
Tystysgrifau cyfranddaliadau a chofrestr cyfranddaliadau	24
Geirfa	25
Ynglŷn â Plunkett UK	26
Cysylltwch â ni	26
Aelodaeth Plunkett UK	26



Cyfranddaliadau cymunedol a strwythur cyfreithiol

Dim ond cyfranddaliadau a roddir gan Gymdeithas Gydweithredol neu Gymdeithas Budd Cymunedol yw cyfranddaliadau cymunedol.

Mae'r rhain yn gyrrff cyfreithiol corfforedig sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac sydd wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA). Sylwer bod cofrestru cymdeithasau yn wahanol i swyddogaeth y FCA o reoleiddio sefydliadau ariannol. Mae Plunkett UK wedi datblygu ac yn noddi set o reolau enghreifftiol ar gyfer model Cymdeithas Budd Cymunedol.

Mae gan y Gymdeithas Budd Cymunedol nifer o nodweddion unigryw. Un o'r rhai pwysicaf o ran codi buddsoddiad gan gymuned, yw bod gan bob aelod un bleidlais, waeth faint o gyfranddaliadau y maent wedi'u prynu. Mae'r egwyddor un-aelod-un-bleidlais yn creu strwythur democrataidd. Agweddau eraill ar y Gymdeithas Budd Cymunedol sy'n gweithio'n dda mewn amgylchedd busnes cymunedol yw egwyddorion adenillion cyfyngedig o fuddsoddiadau (rhaid cyfyngu'r llog sy'n daladwy ar gyfranddaliadau i'r hyn sy'n 'angenrheidiol i'w gael a chadw digon o gyfalaf i redeg y busnes') a gwrthod cyfyngiadau artiffisial ar aelodaeth.

Nodwedd hollbwysig Cymdeithas Budd Cymunedol yw'r gallu i gyhoeddi math penodol o gyfalaf cyfranddaliadau heb ei reoleiddio neu 'gyfranddaliadau cymunedol'. Gall aelodau dynnu'r math hwn o gyfranddaliad allan, yn amodol ar unrhyw amodau a nodir yn rheolau'r gymdeithas. Mae rheolau enghreifftiol Plunkett UK yn caniatáu ar gyfer cyfranddaliadau cymunedol ac yn rhoi arweiniad clir ar y telerau mwyaf priodol ar gyfer tynnu cyfalaf cyfranddaliadau allan.

Mae Plunkett UK yn argymhell y strwythur cyfreithiol hwn ar gyfer busnesau cymunedol gan ei fod wedi ennill ei blwyf fel model llwyddiannus ar gyfer denu buddsoddiadau mewn cymunedau. Mae pobl sy'n buddsoddi mewn cymdeithasau fel arfer yn gwneud hynny am resymau cymdeithasol neu ddyngarol, yn hytrach nag adenillion ariannol. Mae democratiaeth gynhenid, adenillion prin a 'chlo asedau' (h.y. pan gaiff ei ddiddymu, ni ellir rhannu'r asedau ymhlith yr aelodau ond rhaid iddynt fynd i sefydliad arall sy'n cloi asedau ac sydd ag amcanion tebyg) y Gymdeithas Budd Cymunedol i gyd yn fanteision positif i fusnes cymunedol.

Gellir bod yn aelod o Gymdeithas Budd Cymunedol drwy brynu o leiaf un cyfranddaliad. Gallai'r isafswm o ran y buddsoddiad cyfranddaliadau mewn Cymdeithas Budd Cymunedol fod cyn lleied â £1 a'r uchafswm cyfranddaliadau statudol presennol gan un unigolyn neu gwmni mewn Cymdeithas Budd Cymunedol yw £100,000 – ac eithrio cymdeithasau, sydd â'r gallu i wneud buddsoddiad diderfyn mewn cymdeithas arall.

Gall cymdeithasau ddewis yr uchafswm y maent eisiau i unrhyw berson unigol ei fuddsoddi er mwyn osgoi bod swm sylweddol o gyfalaf cyfranddaliadau yn cael ei gadw gan nifer fach o aelodau; gallai hyn arwain at broblemau hylifedd a'r risg o ansefydlogrwydd os bydd y deiliaid yn gofyn am dynnu eu cyfranddaliadau allan. Mae yna hefyd risg o ddylanwad gormodol, er bod gan gyfranddalwyr hawliau pleidleisio cyfartal. Mae CThEF yn datgan, er mwyn bod yn gymwys am ryddhad treth (os ar gael), ni all buddsoddwyr a'u teuluoedd agos fod yn berchen ar fwy na 30% o'r cyfalaf cyfranddaliadau a benthyciadau mewn cymdeithas – ac mae'r Uned Cyfranddaliadau Cymunedol yn argymhell bod 10% i 20% yn nes at y sefyllfa ddelfrydol.

Am drafodaeth fanylach ar strwythurau cyfreithiol, cyfeiriwch at gyhoeddiad Simply Legal Co-operatives UK. Gellir dod o hyd i'r cyhoeddiad hwn, ynghyd ag adnoddau amhrisiadwy eraill yn ogystal ag astudiaethau achos, ar wefan Co-ops UK sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd. <https://www.uk.coop/support-your-co-op/community-shares>. Efallai y byddwch hefyd am ddarllen Canllaw Byr Plunkett UK ar Strwythurau Cyfreithiol, sydd ar gael yn <https://plunkett.co.uk/wp-content/uploads/Legal-Structures.pdf>

Y broses o wneud penderfyniadau

Ar ôl penderfynu mai Cymdeithas Budd Cymunedol fyddai'r ffurf gyfreithiol fwyaf addas ar gyfer eich prosiect busnes cymunedol, gallwch ddechrau cynllunio i godi'r arian angenrheidiol. Mae hyn yn debygol o fod yn gymysgedd o gyfranddaliadau cymunedol, benthyciadau, rhoddion a grantiau.

I sefydlu a chofrestru Cymdeithas Budd Cymunedol mae angen i chi gael o leiaf tri aelod. Rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud gan gorff llywodraethu (y cyfeirir ato fel arfer fel y 'pwyllgor rheoli' neu, os yw'n well gan y grŵp, 'bwrdd cyfarwyddwyr'). Yn achos Cymdeithas Budd Cymunedol sydd newydd gofrestru, ni fydd y pwyllgor rheoli wedi'i benodi'n ddemocrataidd eto, ac yn aml 'grŵp llywio' sy'n lansio'r cynnig cyfranddaliadau, a dylai'r deunydd darllen gynnwys manylion ynglŷn â sut a phryd y bydd y pwyllgor rheoli yn cael ei ethol yn ddiweddarach gan yr aelodau. Nid oes isafswm

oedran ar gyfer aelodau Cymdeithas Budd Cymunedol erbyn hyn, ond yr isafswm oedran ar gyfer aelodau corff llywodraethu yw 16 oed.

Bydd y corff llywodraethu neu'r 'grŵp llywio' yn dechrau ymchwilio i gynigion cyfranddaliadau cymunedol. I'r rhan fwyaf o bobl sy'n sefydlu busnes cymunedol, dyma fydd y tro cyntaf iddynt ddod ar draws ffurf gyfreithiol Cymdeithas Budd Cymunedol a natur anarferol ei gyfansoddiad a'i rinweddau unigryw, yn enwedig y ffordd y gellir tynnu cyfalaf cyfranddaliadau allan. Dyma pryd y gall cymorth gydag aelodaeth neu gymorth ymgynghorol Plunkett UK <https://plunkett.co.uk/how-we-help/> neu Co-ops UK fod yn ddefnyddiol iawn wrth roi cyngor a gwybodaeth yn ystod pob cam.

Unwaith y byddwch chi wedi cofrestru'ch rheolau gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA), gallwch ddechrau bwrw ati i chwilio am aelodau drwy werthu cyfranddaliadau, naill ai fel cynnig Aelodau cyntaf, neu fel Cynnig Cyfranddaliadau 'Caeedig' neu 'Agored' ffurfiol, â chyfyngiad amser.



Nodweddion hollbwysig y cynnig cyfranddaliadau

Mae'r penderfyniadau sy'n creu'r trafod mwyaf wedi'u rhestru isod. Mae'n werth treulio amser yn cysylltu â phrosiectau llwyddiannus eraill sy'n aml yn hapus i rannu eu profiadau a'r hyn a ddysgwyd, gan gymharu nodiadau â busnesau tebyg, a chael cyngor gan Plunkett UK neu sefydliadau ymgynghorol eraill.

Beth ddylai wynebwerth un cyfranddaliad fod?

Gallai fod yn unrhyw beth o £1 i fyny (sylwer nad yw wynebwerth cyfranddaliad cymunedol, yn wahanol i gyfranddaliad mewn cwmni, byth yn cynyddu). Mae Plunkett UK yn argymhell gosod y gwerth ar £1 y cyfranddaliad i'w gwneud yn symlach caniatáu ar gyfer tynnu cyfranddaliadau allan yn rhannol a'u trosglwyddo adeg marwolaeth rhwng sawl buddiolwr.

Beth ddylai'r isafswm fod o ran cyfranddaliadaeth neu gymhwystra aelodaeth?

Un cyfranddaliad? Deg cyfranddaliad? Hanner cant o gyfranddaliadau? Os mai pwrpas y cynnig cyfranddaliadau cymunedol yw cynhyrchu aelodaeth yn hytrach na chyfalaf, yna byddai'n fwy priodol ei gadw'n syml, yn gyffredinol fforddiadwy ac yn gynhwysol – ac felly gosod yr isafswm ar un gyfran. Mae hawliau pleidleisio yn berthnasol i'r cyfranddaliad cyntaf y mae rhywun yn berchen arno, faint bynnag rydych chi'n berchen arnynt dros amser.

Serch hynny, os oes angen i chi godi symiau sylweddol o arian, mae'r addasiadau yn ddiderfyn. Byddai Plunkett UK yn dal i argymhell gosod gwerth pob cyfranddaliad yn £1 ond gallwch osod isafswm i'r gofyniad cyfranddaliadau er mwyn codi digon o arian wedi'i gydbwysu â fforddiadwyedd ac ecwiti.

Er enghraifft, pan fydd cyllid grant ar gael yn haws, gallai prosiectau siopau pentref cymunedol ddewis £10 i £20 fel wynebwerth a chaniatáu aelodaeth drwy brynu un cyfranddaliad yn unig. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae prosiectau sy'n chwilio am fuddsoddiad uwch wedi gosod y wynebwerth yn uwch neu'n is, ond maent yn pennu isafswm y cyfranddaliad (ac felly cymhwystra ar gyfer aelodaeth) o sawl cyfranddaliad.

Bydd codi'r arian i brynu rhydd-ddaliad tafarn yn gyffredinol yn gofyn am isafswm uwch o ran buddsoddiad, ond gellir cyfiawnhau hyn drwy ystyried costau cyfartalog uwch tafarn, o'i gymharu â siop. Mae'n rhaid i'r buddsoddiad lleiaf weddu i'r amodau economaidd a chymdeithasol lleol, yn ogystal ag edrych ar y symiau sydd eu hangen. O edrych ar y cynigion cyfranddaliadau cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan brosiectau tafarndai, mae isafswm y cyfranddaliadau wedi'i wasgaru'n eang rhwng £10 a £1,000, gyda'r rhan fwyaf rhwng £75 a £250.

Beth ddylai amserlen y cynnig cyfranddaliadau fod?

Gall hyn gael ei bennu gan amgylchiadau, yn enwedig yn achos prynu asedau o werth cymunedol o fewn amser penodol. Ond mae seicoleg hefyd yn chwarae rôl: os yw'n gynnig â chyfyngiad amser, mae'n werth canolbwyntio meddyliau pobl ar y targed, ac mae cyfnodau cyn fyrred â 4 i 8 wythnos wedi profi'n llwyddiannus, er y bydd y rhan fwyaf ohonynt rhwng tri a chwe mis.

Os oes llog i fod yn daladwy ar y cyfranddaliadau, ar ba lefel y dylid ei osod?

Bydd hyn yn dibynnu ar eich math o brosiect ac mae angen ei astudio'n ofalus yng nghyd-destun y cynllun busnes a rhagolygon o'r llif arian; byddai'n ddoeth cymryd cyngor hefyd. Anaml y mae siopau pentref sy'n eiddo i'r gymuned wedi talu llog ar eu cyfranddaliadau oherwydd gall maint yr elw fod yn isel iawn yn y sector manwerthu cyfleustra. Serch hynny, mae tafarndai wedi cynnig llog cyfyngedig yn gyson fel cydnabyddiaeth o fuddsoddiad o risg uwch, ac mae lefel gychwynnol y llog yn cael ei bennu gan unrhyw warged sydd ar gael. Caiff ei dderbyn yn gyffredinol ei bod yn gwneud synnwyr codi cymaint o gyfalaf cyfranddaliadau â phosib drwy dalu lefel isel o log (e.e. 2% yn uwch na'r gyfradd sylfaenol), yn hytrach na thalu llog sawl pwynt yn uwch ar fenthyciad masnachol. Yn aml telir llog ar ôl sawl blwyddyn o fasnachu proffidiol i ganiatáu i'r Gymdeithas adeiladu cronfa o arian parod wrth gefn i dalu llog ac adbrynu cyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan.

A ddylai fod cyfyngiadau ar dynnu cyfranddaliadau allan?

Yn bendant mae angen cyfyngu ar dynnu cyfranddaliadau allan er mwyn diogelu llif arian a solfedd y busnes a dylid ysgrifennu yn y rheolau mai dim ond yn ôl disgrisiwn y pwyllgor rheoli y tynnir unrhyw gyfranddaliadau allan, a'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am benderfynu a yw'r busnes yn ddigon iach i gynnig tynnu unrhyw gyfranddaliadau allan. Bob blwyddyn, gall y pwyllgor rheoli neu'r corff llywodraethu ddatgan lefel y tynnu cyfranddaliadau allan, fel canran o'r cyfalaf cyfranddaliadau a ganiateir ac ar ba delerau, fel arfer ar sail y cyntaf i'r felin.

Os yw'r prosiect i fod yn gymwys am gynlluniau rhyddhad treth y llywodraeth fel y Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau (SEIS) a'r Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (EIS), mae'n amod o'r cynlluniau hyn na all y bobl hynny sy'n buddsoddi mewn cyfranddaliadau ac sy'n hawlio rhyddhad treth eu tynnu allan am o leiaf tair blynedd. Mae hefyd yn ddoeth iawn capio lefel y cyfranddaliadau a ganiateir i'w tynnu allan mewn unrhyw flwyddyn. Mae Plunkett UK yn argymhell gosod y cap i 10% o gyfalaf gwreiddiol y cyfranddaliadau er mwyn i'r busnes allu cynllunio i gael y lefel honno o hylifedd yn y dyfodol.

Beth ddylai'r targed buddsoddi fod?

Er mai hwn mewn gwirionedd yw'r cwestiwn cyntaf y byddwch am ei ateb, efallai mai dyma'r cwestiwn anoddaf i'w ddatrys.

Bydd yr ateb yn dibynnu ar sawl ffactor:

- **Ymwybyddiaeth o ddemograffeg leol** – gall fod yn heriol ceisio codi symiau afrealistig o arian o gyfranddaliadau mewn ardal ddifreintiedig sydd ag incwm gwario isel, ond gellid dal i anelu at lefel uchel o aelodaeth ac ymgysylltiad cymunedol, a allai fod o gymorth wrth chwilio am gyllid grant. Mae buddsoddiad ac ecwiti cymunedol yn fudd positif o gynnig cyfranddaliadau cymunedol a gall ddangos cynhwysiant ariannol cymdeithasol a pherchnogaeth gymunedol amrywiol. I'r gwrthwyneb, mewn ardal lewyrchus, gallai'r cynnig cyfranddaliadau fod yn brif ddull ariannu'r prosiect a gellir gosod targed uchel cyn belled ag y cyflawnir egwyddorion cynhwysiant ariannol.

- **Pwysigrwydd lleol** – er enghraifft, os yw'r fenter am gadw ased lleol gwerthfawr, bydd pwysigrwydd yr ased hwnnw'n cael ei adlewyrchu yn y swm y gallwch anelu at ei godi. Y cwestiwn wedyn yw: faint yw gwerth yr ased i bob cartref/buddsoddwr? Gall hyn hefyd fod yn berthnasol i wasanaeth: er enghraifft, mae'n hysbys bod bodolaeth siop bentref yn gallu ychwanegu cymaint â 5% at werth eiddo lleol.
- **Y gallu ariannol i dalu llog** – bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar natur y busnes a ffactorau eraill fel gorbenion benthyciadau, a ddylai fod wedi'u cynnwys yn y cynllun busnes. Mae'n hanfodol eich bod wedi ysgrifennu cynllun busnes llawn cyn i chi lansio'ch cynnig cyfranddaliadau a dylech allu cynnig copïau i ddarpar gyfranddalwyr neu drwy ddolen i'ch gwefan. Os gall y busnes gynnig taliadau llog rheolaidd i gyfranddalwyr, yna daw ei gyfranddaliadau yn gyfle buddsoddi hirdymor deniadol yn ogystal â chynnig adenillion cymdeithasol.
- **Cymhwysra ar gyfer cynlluniau rhyddhad treth** – mae gallu cynnig rhyddhad treth i ddarpar fuddsoddwyr ar eu buddsoddiad cyfranddaliadau o 30% yn achos EIS neu 50% drwy SEIS yn golygu y gallai'r buddsoddwyr efallai fforddio buddsoddi mwy yn y prosiect. Mae rhyddhad treth yn dibynnu ar y model busnes ac mae mwy o wybodaeth ar gael gan CThEF. <https://www.gov.uk/guidance/venture-capital-schemes-tax-relief-for-investors>
- **Rhagamcanion realistig** – mae angen bod yn gywir ynglŷn â hylifedd diweddarach y fenter er mwyn galluogi i gyfalaf cyfranddaliadau gael eu tynnu allan. Mae'n arferol ac yn dderbyniol gosod cap fel mai dim ond 10% o gyfalaf cyfranddaliadau y gellir ei dynnu allan mewn unrhyw flwyddyn. Serch hynny, byddai'n anghyfrifol mynd am lefel fuddsoddi mor uchel a allai olygu y gallai tynnu'r ganran fach hon allan, o bosib, niweidio'r busnes, ac felly byddai'n rhaid gwrthod y cais i dynnu allan.

Amseru'r cynnig a gofyn am addewidion

Mae amseru'r cynnig cyfranddaliadau cymunedol yn benderfyniad hollbwysig a wneir gan y grŵp llywio ac, oherwydd bod lansiad go iawn y cynnig yn ymrwymiad ffurfiol, mae'n bwysig cael yr elfennau pwysig yn eu lle.

Yn gyntaf, mae'n rhaid i ddichonoldeb y prosiect (gan dybio bod y cyllid ar ei gyfer wedi'i asesu'n realistig) fod heb amheuaeth: gall ymddangos yn amlwg, ond os yw eiddo i'w gaffael yna mae'n rhaid bod siawns resymol o'i brynu neu ei brydlesu; os oes angen caniatâd cynllunio yna byddai'n synhwyrol cael adborth positif wrth y cynllunwyr, ac ati. Does dim byd mwy siomedig na gorfod dychwelyd arian pobl oherwydd nad oedd modd gweithredu'r cynllun.

Dyma pam mae rhai busnesau cymunedol yn penderfynu gwneud y gwaith ychwanegol sydd ynghlwm wrth ofyn am addewidion a chael eu cynnig cyfranddaliadau wedi'i asesu'n annibynnol a'i achredu gyda'r Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol.

Gall cyhoeddi llythyrau addewid a ffurflenni, a chasglu'r ymatebion, gymryd cryn dipyn o amser ond mae'n cynnig cronfa ddata ddefnyddiol o ddarpar fuddsoddwyr, symiau y gellir eu codi a manylion ariannol. Rhaid i'r wybodaeth fod yn gywir; rhaid esbonio'r prosiect; mae angen amlinellu'r elfennau cyfreithiol a manylion y darpar gynnig a'r strwythur corfforaethol a chynnal cydymffurfiaeth diogelu data.

Yn dilyn deddfwriaeth (Deddf Lleoliaeth, 2011), sydd wedi'i chyflwyno i alluogi cymunedau i restru eu hasedau pwysig, a elwir yn Asedau o Werth Cymunedol (ACV), gall amseriad cynnig cyfranddaliadau gael ei lywodraethu gan amserlen y broses restru, mynegiant o ddiddordeb a chyfnodau moratoriwm.

Gellir defnyddio'r Hawl Cymunedol i Gynnig mewn gwirionedd i 'oedi' gwerthu adeiladau neu dir sy'n bwysig i chi fel eich tafarn, siop, llyfrgell neu faes pêl-droed lleol. Mae'n rhoi amser i'ch cymuned ddatblygu cais i gytuno ar bris i'w brynu. Unwaith y bydd ased wedi'i restru gyda'r cyngor lleol, mae gennych hyd at chwe mis o foratoriwm o'r dyddiad rhestru i baratoi'r cais hwnnw. Mae gofyn am addewidion yn ffordd dda o ymdopi â'r cyfyngiadau amser hyn, ond os oes rhywfaint o sicrwydd y bydd y cynnig yn cael ei dderbyn, efallai y byddai'n gwneud synnwyr i baratoi a lansio'r cynnig cyfranddaliadau go iawn, yn enwedig os oes arian grant cyfatebol ar gael. Gellid casglu addewidion hefyd yn ystod y broses restru ei hun (rhoddir wyth wythnos i gynghorau archwilio'r cais).

Gallwch gyflwyno cais am addewidion mewn nifer o wahanol ffyrdd, ond yr un symlaf yw llythyr, wedi'i ysgrifennu mewn ffordd llawn gwybodaeth ond hygyrch, a ffurflen addewid i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol a'r dulliau talu.



Canllawiau'r llythyr addewid a'r ffurflen

Wrth bwy y mae'r llythyr?

Cyflwynwch eich hunain drwy ddisgrifio beth yw enw'r grŵp, ac enw'r prosiect. Mae'n werth rhoi ambell enw cyswllt, gan egluro mai gwirfoddolwyr ydych chi a beth yw eich cyfansoddiad ar hyn o bryd. Gellir lawrlwytho templed o Hwb Aelodau gwefan Plunkett UK.

Dylai'r ffurflen addewid egluro nad yw addewid yn rhwymol ond yn arwydd o barodrwydd i gefnogi a gwerth buddsoddi posib i helpu i bennu hyfywedd cynnig cyfranddaliadau cymunedol. Dylai gasglu manylion personol llawn darpar ymgeiswyr cyfranddaliadau cymunedol a chael caniatâd i gysylltu â nhw mewn perthynas â phrynu cyfranddaliadau er mwyn bodloni gofynion diogelu data. Gwybodaeth y mae'n rhaid ei diogelu a'i gwarchod gan eich grŵp fel rheolwr data.

Cyllid – ffynonellau a thargedau

Tra'n egluro eich bod yn ymchwilio i'ch opsiynau ariannu ar hyn o bryd, e.e. pa grantiau all fod ar gael, mathau eraill o fuddsoddiadau a benthyciadau etc., esbonio'r amserlen a'r targed cyffredinol. Dylech egluro y gall yr arian o'ch cymuned weithredu fel trosoledd ar gyfer grantiau, a bod angen i chi sefydlu faint y mae'r gymuned yn fodlon ei fuddsoddi i wneud i'r prosiect weithio.

Pwrpas y llythyr yw dysgu faint y byddai'r derbynnydd yn barod i'w gyfrannu.

Y strwythur cyfreithiol, y cyfranddaliadau a'r adenillion posib

Mae angen i chi egluro'r strwythur cyfreithiol rydych yn bwriadu ei sefydlu, h.y. cymdeithas y gall y gymuned fuddsoddi ynddi drwy brynu cyfranddaliadau. Amlinellwch brif amcan y gymdeithas, ynghyd â'r ffaith, yn y tymor hwy, os oes unrhyw warged, y gellir ei ddefnyddio er budd y gymuned.

Eglurwch y bydd unrhyw un sy'n prynu'r isafswm o gyfranddaliadau yn dod yn aelod ac yn cael pleidlais (ac felly'n cael dweud ei ddweud ym materion y busnes) mewn cyfarfodydd cyffredinol ac y bydd pwyllgor yn cael ei ethol gan yr aelodau i oruchwylio'r busnes. Nodwch y bydd y gymdeithas yn gweithredu'n llym ar sail 'un aelod, un bleidlais', waeth faint o gyfranddaliadau sy'n cael eu prynu.

Gellir esbonio natur cyfranddaliadau cymunedol mewn termau syml – e.e. 'Efallai y byddwch yn gallu adennill eich buddsoddiad cychwynnol yn y dyfodol drwy werthu eich cyfranddaliadau yn ôl i'r Gymdeithas (drwy fath arbennig o gyfranddaliadau a elwir yn gyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan). Er mwyn rhoi cyfle i'r busnes sefydlu ei hun bydd angen i ni gytuno ar gyfnod cychwynnol pan fydd prynu cyfranddaliadau'n ôl yn cael ei gyfyngu'n llym, ond wedi hynny disgwylir y bydd elw efallai i gyllido tynnu cyfranddaliadau allan o fewn paramedrau y cytunwyd arnynt gan yr aelodau.'

Sut gall y derbynnydd helpu

Po fwyaf sy'n gallu addo prynu cyfranddaliadau a'r ehangaf yw'r gymuned sy'n cymryd rhan frwd yn y fenter, y mwyaf tebygol ydyw o lwyddo.

Efallai na fydd gan rai ddiddordeb mewn prynu cyfranddaliadau ac efallai y byddai'n well ganddynt roi rhodd i'r prosiect yn lle hynny, felly gallwch ddweud y byddai hyn yn cael ei groesawu'n fawr. Gofynnwch i'r ffurflen addewid amgaeedig gael ei llenwi er mwyn i chi allu asesu lefel y gefnogaeth, ac i roi sicrwydd nad oes unrhyw arian yn newid dwylo ar hyn o bryd ac nad yw hwn yn ymrwymiad terfynol. Bydd mwy o wybodaeth ariannol a manylion y cynigion yn cael eu darparu maes o law er mwyn galluogi'r rhai sydd â diddordeb i benderfynu a ydynt am fuddsoddi mewn rhai cyfranddaliadau.

Sut i gyfathrebu

Rhowch enw cyswllt a rhif ar gyfer cwestiynau, ffordd hawdd o ddychwelyd y ffurflen (drwy e-bost hefyd) ac, yn bwysicaf oll, y dyddiad cau!





Cyllido torfol

Gall safleoedd cyllido torfol chwarae rôl bwysig wrth ariannu prosiect, yn draddodiadol drwy godi symiau bach gan nifer fawr o bobl drwy ddefnyddio platfform ar-lein.

Gall safleoedd cyllido torfol chwarae rôl bwysig wrth ariannu prosiect, yn draddodiadol drwy godi symiau bach gan nifer fawr o bobl drwy ddefnyddio platfform ar-lein. Gall fod yn ffordd ddefnyddiol iawn o godi arian yn y lle cyntaf, a hefyd i brofi'r syniad o gefnogaeth gymunedol i brosiect. Serch hynny, mae rhai safleoedd cyllido torfol bellach yn cynnig

y cyfleuster ar gyfer rheoli a derbyn addewidion ar gyfer cynnig cyfranddaliadau cymunedol neu ar gyfer gwerthu cyfranddaliadau cymunedol. Gall hyn fod yn ffordd gyfleus iawn o brynu cyfranddaliadau i bobl sy'n gwneud y rhan fwyaf o'u trafodion ariannol ar-lein. Mae'n ddefnyddiol gwneud y penderfyniad yn gynnar a ddylid gofyn am roddion neu gynnal y cynnig cyfranddaliadau ar-lein.

Nod Safonol Cyfranddaliadau Cymunedol

I gefnogi eich cynlluniau yn eich cynnig cyfranddaliadau ac i ddilysu eich hawliadau, gallech ystyried gwneud cais am y Nod Safonol.

Byddai hyn yn galluogi ymarferydd trwyddedig i graffu ar eich cynllun busnes, eich cynnig cyfranddaliadau a'ch dogfen lywodraethol a gall roi hyder ychwanegol i ddarpar fuddsoddwyr fod eich cynnig yn gadarn, yn gymaradwy, wedi'i asesu o ran risg, yn dilyn arferion gorau ac wedi'i ysgrifennu'n glir ac yn hawdd i'w ddeall.

Gall cost asesu fod yn effeithiol o ystyried y buddsoddiad cynyddol y gallai ei godi o ddyfarnu'r marc.

I gael gwybodaeth fanwl am gael Nod Safonol Cyfranddaliadau Cymunedol, edrychwch ar: <https://www.uk.coop/start-new-co-op/support/community-shares/standards>

Rhestr wirio

Gallai rhestr wirio o'r hyn sydd angen ei sefydlu cyn lansio cynnig cyfranddaliadau edrych fel hyn:

- ☐ Grŵp llywio wedi'i sefydlu
- ☐ Penderfyniadau a wnaed (adran 2)
- ☐ Cynllun busnes wedi'i gwblhau
- ☐ Y corffori wedi'i gwblhau
- ☐ Derbyn sicrwydd ymlaen llaw am y cynllun rhyddhad treth os yn berthnasol
- ☐ Caniatâd cynllunio wedi'i gael neu ei sicrhau
- ☐ Cynnig/cynllun yn debygol o gael ei dderbyn
- ☐ Cyfrif banc wedi'i agor
- ☐ Dogfennau cynnig cyfranddaliadau wedi'u hysgrifennu
- ☐ Y Marc Safonol wedi'i ddyfarnu (os oes angen)



Canllaw cam wrth gam

Sut i'w gyflwyno

Ar gyfer cynnig cyfranddaliadau cymunedol llwyddiannus, mae angen i chi gael dogfen cynnig cyfranddaliadau sy'n dda, yn gryno ac yn apelgar. Nid oes angen i hon fod yn ddogfen hir iawn, ond mae angen iddi gynnwys darnau perthnasol o'ch cynllun busnes a chael ei darllen ar y cyd ag ef.

Mae gan Plunkett UK nifer o enghreifftiau a ddarparwyd gan gymunedau sy'n barod i rannu eu dogfennau, ond dyma rai arferion gorau.

Gan eich bod, fwy na thebyg, yn debygol o gynnwys cymuned eang ac amrywiol, mae angen deall y cynnig cyfranddaliadau yn hawdd. Bydd pobl yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau cymunedol nad ydynt erioed wedi buddsoddi mewn unrhyw fath o gyfranddaliadau o'r blaen, a bydd angen i chi oresgyn unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.

Yn yr un modd, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r rhai sy'n gwneud cais am gyfranddaliadau y gallai eu harian fod mewn perygl, ac os na allant fforddio ei golli, yna ni ddylent fuddsoddi neu gael cyngor proffesiynol cyn gwneud hynny.

Bydd unigolion yn eich cymuned a fydd ond yn dymuno buddsoddi'r isafswm, ond bydd eraill a fydd yn barod i wneud buddsoddiad sylweddol. Mae'n bwysig peidio â rhagdybio pwy fydd a phwy na fydd yn buddsoddi a thrin pob cais am gyfranddaliadau yn gyfartal.

I'r rhai nad ydynt efallai'n fuddsoddwyr rheolaidd, dylai'r iaith fod yn hawdd i'w darllen a'i deall, gydag unrhyw dermau technegol wedi'u hesbonio'n syml. Bydd pobl sy'n gyfarwydd iawn â chyfraith cwmnïau a pherchnogaeth cyfranddaliadau angen eglurhad eithaf manwl o ran y gwahaniaethau rhwng cyfranddaliadau cwmni a chyfranddaliadau cymdeithas.

Mae'n bwysig esbonio adenillion cymdeithasol buddsoddiad cymunedol i gyflawni canlyniadau sy'n fwy nag adenillion economaidd cwbl ariannol y buddsoddiad. Mae pobl yn defnyddio eu cyfalaf i gadw neu greu amwynder neu ased lleol – rhywbeth i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau – ac mae'n werth esbonio bod hwn yn ffordd werth chweil o ddefnyddio arian, gydag enghreifftiau o'r gwahaniaeth y gall ei wneud i'ch cymuned, staff a gwirfoddolwyr, yr amgylchedd a'ch cadwyn gyflenwi.

Dechrau'r ddogfen

Ar ddiwedd y bennod hon mae rhestr wirio i chi ei defnyddio unwaith y byddwch chi wedi gorffen eich dogfen.

Ond i ddechrau, dyma syniad cyffredinol o'r hyn y bydd angen ei gynnwys ar ryw bwynt. Ymarfer hunan-reoleiddio yw hwn, gan na fydd y cynnig cyfranddaliadau yn cael ei reoleiddio gan y FCA, nac unrhyw un arall. Felly rydyn ni'n hyrwyddo'r syniadau hyn fel arferion gorau. Sylwer mai trosolwg yn unig yw'r cyhoeddiad hwn. Yr elfennau hollbwysig i'w gynnwys yw:

- Pwrpas y buddsoddiad
- Adenillion cymdeithasol sy'n cael eu rhagweld
- Lleiafswm/uchafswm y buddsoddiadau
- Telerau tynnu allan
- Adenillion ariannol sy'n cael eu rhagweld, os o gwbl
- Ffactorau risg a rheolaeth
- Hawliau a chyfrifoldebau aelodau
- Manylion eich pwyllgor fel hyrwyddwyr
- Strwythur cyfreithiol y Gymdeithas
- Ethol pwyllgor/bwrdd a CCB
- Rheoleiddio'r cynnig
- Cymhwysterau rhyddhad treth
- Sut i wneud cais





Dogfen y cynnig cyfranddaliadau, fesul adran

Yn ddelfrydol bydd y ddogfen cynnig cyfranddaliadau rhwng chwech a deg tudalen o hyd, gyda gwybodaeth bwysig ar y dudalen flaen, ac mae angen i'r testun fod yn gryno, yn gywir, yn fywiog ac yn glir.

Y dudalen flaen

Dylai hwn roi crynodeb byr o'r prosiect.

Dylai gynnwys:

- Enw'r Gymdeithas
- Pwrpas y cynnig cyfranddaliadau
- Dyddiadau agor a chau'r cynnig (os yw wedi'i amseru)
- Targedau lleiaf, optimwm ac uchaf y cynnig
- Rhif cofrestru a swyddfa gofrestredig y Gymdeithas

Ysgrifennwch eich dogfen er mwyn iddi fod yn ddeniadol ac yn ddiddorol i'w darllen!

Yn ogystal â bod yn gynnig busnes credadwy, mae'n bwysig rhoi sylw i elfen farchnata'r ddogfen gynnig. Bydd y dudalen flaen yn cyfleu hunaniaeth y busnes cymunedol a phroffesiynoldeb y bobl sy'n ei arwain, felly mae'n werth treulio amser ar hwn.

Yn ddelfrydol, dylai'r dudalen flaen gynnwys llun neu gynrychioliad darluniadol ac, os nad yw testun y cynnig cyfranddaliadau yn bodoli eto, yna gall argraff arlunydd fod yn effeithiol iawn.

Mae'r dudalen flaen hefyd yn lle da i estyn allan gydag apêl uniongyrchol, fel 'Mae angen eich help arnom ni' neu 'Rhannwch ein gweledigaeth', i gael yr effaith fwyaf bosib.

Mae'n ddefnyddiol iawn gynnwys Crynodeb Gweithredol, fwy na thebyg ar dudalen 2.

Er mwyn datblygu hyn a rhoi crynodeb hawdd ei ddeall o'r hyn y bydd y ddogfen lawn yn ei gynnwys a'r hyn y mae'r prosiect yn ymwneud ag ef, nid oes dim o'i le ar fynd yn ôl at yr egwyddorion sylfaenol: Beth – Pwy – Pam – Ble – Pryd – Sut. Os ydych chi'n defnyddio'r rhain fel man cychwyn, ewch chi ddim yn rhy bell o'ch lle! Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybod i fuddsoddwyr bod hwn yn fuddsoddiad lle ceir risg, ac y gallent golli rhywfaint neu'r cyfan o'u harian gan nad yw wedi'i warantu ac y dylent gael cyngor proffesiynol os ydynt yn ansicr.

Gan symud ymlaen at weddill y ddogfen, mae angen i chi feddwl yn ofalus am eich penawdau. Gallai enghreifftiau defnyddiol ar gyfer strwythuro'r testun fod fel a ganlyn (nid o reidrwydd yn y drefn hon):

- Pwy ydyn ni
- Y stori hyd yma
- Ein gweledigaeth a'n hamcanion
- Sut mae'n gweithio
- Y cynnig cyfranddaliadau
- Cwestiynau cyffredin
- Pwyntiau pwysig i'w hystyried cyn buddsoddi
- Manylion cyswllt

Egluro'r strwythur cyfreithiol

Mae ateb cwestiwn fel 'Pwy ydyn ni' yn arwain yn anochel at ddisgrifiad o'r strwythur cyfreithiol, a'r grŵp llywio y tu ôl iddo. Rhaid i hyn fod yn gywir ac yn glir. Eglurwch sut mae'r grŵp wedi ffurfio a pham. Rhowch rai manylion ac argaeledd y cynllun busnes. Ceisiwch osgoi gormod o fanylion, fel ailadrodd gwybodaeth y gellir ei chroesgyfeirio yn lle hynny. Gellir egluro bod rheolau'r Gymdeithas, manylion cyswllt y grŵp llywio a'r cynllun busnes i gyd ar gael ar gais – ac yn ddelfrydol, wedi'u rhoi ar eich gwefan, fel y gallwch gyfeirio at hynny'n hawdd.

Enghraifft dda a syml ar gyfer disgrifio strwythur cyfreithiol Cymdeithas Budd Cymunedol yw:

'Rhif cofrestru Cymdeithas Budd Cymunedol xxxx yw XXX Ltd gan ddefnyddio'r rheolau enghreifftiol a ddatblygwyd gan Plunkett UK ac a gofrestrwyd gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ('FCA'). Yn ei rheolau mae'r egwyddor, os oes gan y Gymdeithas warged, y gall fod ar gael i'w ddosbarthu i brosiectau cymunedol neu elusennol eraill.'

Dywedwch eich stori i ennill cefnogaeth!

Mae angen i chi gyfleu'r cefndir a'ch stori unigryw mewn ffordd fywiog a chryno. Efallai y byddwch yn penderfynu mai dyma'r ffordd orau o gychwyn eich dogfen gyda manylion pwy ydych chi. Cadwch at amserlen gryno, eglurwch eich amcanion a pham fod angen busnes cymunedol yn hytrach na mathau o berchnogaeth yn y sefyllfa hon. Efallai, drwy adrodd eich stori, y gallwch chi hefyd gwmpasu pwy ydych chi a sut datblygodd eich gweledigaeth a'ch amcanion.

Mae'r rhan hon o'r ddogfen yn hollbwysig ar gyfer rhoi eich ymgyrch ar waith – mae'n hawdd ei diystyru, a gall ganolbwyntio gormod ar yr elfennau cyfreithiol a'r manylion yn hytrach na chyfleu'r stori y tu ôl i'r cynnig cyfranddaliadau.

Egluro perchnogaeth cyfranddaliadau cymunedol

Sut mae perchnogaeth cyfranddaliadau cymunedol yn gweithio? Byddwch eisoes wedi cyflwyno'r syniad o gyfranddaliadau cymunedol yn eich adran amcanion –

e.e. 'Rydyn ni'n bwriadu ariannu'r prosiect drwy gynnig cyfranddaliadau yn y busnes i'r gymuned leol' – ond mae angen i chi ddatblygu esboniad manwl o sut yn union y mae'r cynnig cyfranddaliadau yn gweithio, o dan benawdau fel:

- **Y cyfranddaliadau** (amseru, targed, lleiafswm, optimwm ac uchafswm cyfranddaliadau)
- **Cyfranddaliadau cymunedol** (gwahaniaethau i gyfranddaliadau cyffredin; dim cynnydd mewn wynebwerth; un aelod, un bleidlais waeth faint o gyfranddaliadau sydd gan rywun)
- **Tynnu cyfranddaliadau allan** (y telerau a'r cyfyngiadau ar dynnu cyfranddaliadau allan)
- **Adenillion ar fuddsoddiadau** (yr elw cymdeithasol; y tebygolrwydd o daliadau llog)
- **Ffactorau risg** (posiblirwydd o golli gwerth; diffyg rheoleiddio; heb hawl i ombwdsmon; methiant i godi arian)
- **Rhyddhad treth ar gyfranddaliadau** (o dan gynllun rhyddhad treth fel SEIS/EIS).
- **Hawliau'r pwyllgor rheoli a'r aelodau** (pwy sy'n arwain y prosiect; y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol; yr etholiadau; pennu telerau tynnu cyfranddaliadau allan a llog ar gyfranddaliadau).

Ceir enghraifft dda o ddisgrifiad cryno o gynnig cyfranddaliadau, sy'n cwmpasu nifer o'r pwyntiau hyn, gyferbyn. Mae'r enghraifft hon yn fersiwn gryno o ddogfen cynnig cyfranddaliadau tafarn gymunedol, sydd wedi nodi yn ei chynllun busnes ei bod yn bwriadu talu llog ar gyfranddaliadau.

ENGHRAIFFT

Egwyddorion sylfaenol cynnig cyfranddaliadau cymunedol sydd angen eu hesbonio

Mae'r cyfranddaliadau wedi'u cynllunio i roi cyfle i bobl a sefydliadau lleol gyfrannu'n ariannol, yn yr hirdymor, at fusnes Xxxx Ltd. Ein disgwyliad yw y bydd aelodau sy'n gyfranddalwyr yn dod o'r gymuned leol i raddau helaeth, ond byddem hefyd yn croesawu ac yn annog cyfranwyr o ardal bellach. Mae gan aelodau hawl i wneud cais am gyfranddaliadau am gost o £X y cyfranddaliad gydag isafswm buddsoddiad o £X ac uchafswm buddsoddiad o hyd at £X y person neu sefydliad. Mae gan bawb sy'n gyfranddaliwr un bleidlais. Mae hyn yn golygu bod gan bawb lais cyfartal, waeth beth fo maint eu buddsoddiad.

Ni ellir trosglwyddo na gwerthu'r cyfranddaliadau hyn. Yr unig ffordd o adennill gwerth y cyfranddaliadau a brynwyd yw rhoi tri mis o rybudd i'r Pwyllgor Rheoli i'w tynnu allan. Ni ellir tynnu cyfranddaliadau allan nes bod tair blynedd o leiaf wedi mynd heibio o ddyddiad rhyddhau'r cyfranddaliadau, ac yna dim ond yn ôl disgresiwn y Pwyllgor Rheoli.

Efallai y byddwch am gynnwys yn eich cynnig cyfranddaliadau y bydd y swm sydd ar gael mewn unrhyw flwyddyn ariannol yn 10% o gyfanswm gwerth y cyfranddaliadau sy'n ddyledus. Pe bai ceisiadau i dynnu cyfranddaliadau'n ôl yn fwy na'r ffigwr o 10%, byddai buddsoddwyr yn derbyn taliad pro rata yn seiliedig ar eu buddsoddiad gwreiddiol.

Bydd yr holl gyfranddaliadau sy'n cael eu tynnu allan yn cael eu talu o wargedion masnachu neu gyfalaf cyfranddaliadau newydd.

Bydd gan y Pwyllgor Rheoli yr awdurdod i wrthod cais i dynnu cyfranddaliadau allan os byddai hynny'n peryglu'r busnes.

Er mwyn talu llog i gyfranddalwyr, bydd y gyfradd llog ar gyfer pob blwyddyn yn cael ei hargymell gan y Pwyllgor Rheoli a'i rhoi i bleidlais yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. Bydd y cynnig yn seiliedig ar berfformiad y Gymdeithas ac yn blaenoriaethu'r angen i gynnal cronfeydd wrth gefn a budd cymunedol. Telir llog gros i aelodau.

Telir llog gan y Gymdeithas i'r buddsoddwr a chyfrifoldeb pob aelod yw datgan enillion o'r fath i CThEF os yw'n briodol. Mae'n bwysig nodi na fydd gwerth y cyfranddaliadau yn cynyddu. Yr unig fudd ariannol i aelodau yw'r llog sy'n cael ei dalu'n flynyddol.

Mae atebolrwydd yr aelod am y busnes wedi'i gyfyngu i werth ei gyfranddaliadau.

Pe bai'r adeilad neu'r asedau eraill yn cael eu gwerthu, am ba reswm bynnag, byddai buddsoddiad y cyfranddalwyr yn cael ei ad-dalu o enillion gwerthiant o'r fath, ar ôl ad-dalu unrhyw ddyledion. Byddai'n rhaid talu unrhyw arian dros ben i gorff elusennol neu gymunedol.



Amlinellu'r ffactorau risg

Ceir tair agwedd o ran ymdrin â risgiau buddsoddi yn y ddogfen cynnig cyfranddaliadau. FYN gyntaf, mae'n arfer da archwilio'r risgiau i'r busnes ei hun. Mae adran fach sy'n esbonio'r risgiau, fel y gwelwch chi nhw ar hyn o bryd, yn ddefnyddiol i'r darpar fuddsoddwr.

Efallai y bydd lle yn y ddogfen cynnig cyfranddaliadau i gynnwys dadansoddiad bach Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd (SWOT) a Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol (PESTLE); fel arall gellir cyfeirio'r darpar aelodau/fuddsoddwyr at y Cynllun Busnes.

Dyma enghraifft dda o adran 'dadansoddi risg' fer sy'n defnyddio asesiad Coch/Oren/Gwyrdd o ran difrifoldeb a thebygolrwydd gyda mesurau rheoli:

Risg	Difrifoldeb	Tebygolrwydd	Lliniaru
Methiant i gytuno i brynu safle'r siop presennol oddi wrth y perchennog presennol ar delerau addas	Difrifol	Yn bosib	Llyfr Coch RICS Prisiad Annibynol
Cost prynu y tu hwnt i hyfywedd economaidd	Difrifol	Annhebygol	Cynllunio busnes cadarn a rheoli costau
Methiant i gyrraedd y lefel trosiant a ragwelir	Tyngedfennol	Yn bosib	Ymchwil marchnad helaeth a chadarn a chynllun marchnata credadwy
Lefelau elw yn methu â thalu costau	Tyngedfennol	Yn bosib	Polisi prynu effeithiol a monitro costau ac elw
Deddfwriaeth y llywodraeth yn cyfyngu	Gellir ei oddef	Annhebygol	Cyfyngu ar werthiant nwyddau cyfyngedig fel alcohol a thybaco
Dim digon o wirfoddolwyr i redeg y siop	Tyngedfennol	Yn bosib	Recrwtio gwirfoddolwyr, cymorth rheoli a hyfforddiant effeithiol

Nid yw'r rhestr hon o reidrwydd yn gynhwysfawr, ac mae unrhyw weithgarwch masnachu yn agored i newid neu risg nas rhagwelwyd, fel pandemig Covid 2021.

Mae'n bwysig dangos sut bydd pob risg yn effeithio ar y busnes a sut byddech yn lliniaru'r risgiau hyn drwy fonitro a rheoli.

Mae'r ail elfen o risg yn deillio o ddiffyg rheoleiddio ar gyfranddaliadau cymunedol.

Er bod hyn yn cael ei weld yn gyffredinol fel budd, mae'n rhoi risg ychwanegol i'r buddsoddwr y mae'n rhaid ei egluro os yw'r cynnig cyfranddaliadau yn cael ei hyrwyddo'n gyfrifol. Geiriad priodol ar gyfer hyn fyddai:

'Mae ein cynnig cyfranddaliadau wedi'i eithrio o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 neu is-reoliadau; mae hyn yn golygu nad oes gennych hawl i gwyno i ombwdsmon. Mae cymdeithas budd cymunedol wedi'i chofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, ond heb ei hawdurdodi ganddo, ac felly nid yw'r arian rydych chi'n ei dalu am eich cyfranddaliadau yn cael ei ddiogelu gan unrhyw gynllun amddiffyn adnewwyr neu gynllun datrys anghydfodau. Oherwydd y gallai eich buddsoddiad cyfan fod â risg, dylech ei ystyried yn ofalus yng nghyd-destun y ddogfen cynnig cyfranddaliadau gyflawn ac, os oes angen, gofynnwch am gyngor proffesiynol annibynnol.'

Mae hefyd yn werth nodi bod y Gymdeithas yn rhoi atebolrwydd cyfyngedig i werth eich cyfranddaliad, felly os bydd y prosiect yn methu, ni all unrhyw rwymedigaeth bellach ddisgyn ar y cyfranddalwyr.

Y trydydd risg sylweddol yw na fydd y cynnig cyfranddaliadau yn cyrraedd ei darged a bydd y prosiect yn methu. Rhaid datgan yn glir y bydd y darpar fuddsoddwyr yn derbyn eu harian yn ôl o dan yr amgylchiadau hyn. Gellir ychwanegu hwn at yr adran gyfranddaliadau gyda geiriad fel:

'Os bydd y cyfranddaliadau hyn yn codi llai na'r swm sydd ei angen i fwrw ymlaen â'r prosiect, yna bydd pawb sydd wedi buddsoddi yn cael eu had-dalu'n llawn a thybir bod y cyfranddaliadau wedi methu.'



Cymhwystra am ryddhad treth

Mae rheolau Cymdeithasau Budd Cymunedol yn galluogi cymdeithasau mewn rhai amgylchiadau i gynnig rhyddhad treth ar gyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan, ond bydd angen i chi gadarnhau eich cymhwystra ar gyfer y prosiect drwy gysylltu â CThEF a thrafod eich amgylchiadau penodol a'ch model busnes eich hun gyda nhw i gael rhag-gymeradwyaeth. <https://www.gov.uk/guidance/venture-capital-schemes-apply-for-advance-assurance>

Bydd y ffaith bod buddsoddiadau cymunedol yn gallu denu buddion treth yn syndod i lawer o bobl, ac mae'n werth tynnu sylw at y budd hwn yn y ddogfen cynnig cyfranddaliadau, ond rhaid i fuddsoddwyr wirio eu cymhwystra eu hunain am ryddhad treth ac nid cyfrifoldeb y Gymdeithas yw gweithredu drostyn nhw. Ceir mwy o fanylion am ryddhad treth ar gyfranddaliadau ar dudalen (gwirio).

Pwyntiau pwysig / cwestiynau cyffredin

Ffordd effeithiol o gyflwyno elfennau cyfreithiol a mecanwaith y cynnig cyfranddaliadau yw cael adran ar wahân ar ddiwedd y ddogfen cynnig cyfranddaliadau sy'n rhestru nifer o gwestiynau cyffredin mewn un lle. Mae hyn yn gadael y rhan fwyaf o'r ddogfen ar gyfer rhoi esboniad da o'r fenter, y bobl dan sylw, eu gweledigaeth a'u hamcanion.

Gellir cyflwyno rhestr o bwyntiau pwysig hefyd y mae'n rhaid i'r darlennydd eu darllen a'u deall cyn buddsoddi. Gellir rhoi cadarnhad drwy gael blwch ticio ar y ffurflen gais cyfranddaliadau cymunedol a lofnodwyd.

Gallai'r rhain gwmpasu:

- Y buddsoddiad lleiaf/uchaf
- Terfyn oedran aelodaeth
- Ni ellir trosglwyddo cyfranddaliadau
- Ni all wynebwerth cyfranddaliadau gynyddu ond gallant ostwng mewn gwerth os yw asedau yn werth llai na rhwymedigaethau
- Un aelod un bleidlais
- Cyfyngiadau ar dynnu cyfranddaliadau allan
- Taliadau llog
- Heb hawl i ombwdsmon
- Yr angen i gael cyngor annibynnol, etc.

Mae gan Plunkett UK ddigonedd o enghreifftiau da o ddogfennau cynnig cyfranddaliadau sydd wedi datblygu rhestrau o bwyntiau allweddol a Chwestiynau Cyffredin ac sydd ar gael i'w rhannu.

Ceisiadau

I gloi, ac yn bwysicaf oll, mae angen i chi esbonio sut i wneud cais am gyfranddaliadau.

Mae ceisiadau ar-lein yn dod yn boblogaidd iawn, ond bydd angen ceisiadau papur o hyd, felly gwnewch y rhain yn hawdd i'w llenwi, a'r un mor hawdd i'w dychwelyd. Dylai ffurflenni cais fod yn gyson â'r ddogfen cynnig a disgrifio'n union yr hyn y gwneir cais amdano.

Ceisiadau copi caled

Gall y ffurflen gais naill ai fod yn fewnosodiad dalen rydd neu'n dudalen y gellir ei datod, ond mae angen iddi fod yn wahanol iawn a chasglu'r holl ddata sydd ei angen arnoch.

Yn ogystal â'r wybodaeth arferol, gallwch ofyn i'r ymgeiswyr nodi eu bod wedi darllen y ddogfen cynnig cyfranddaliadau ac a fyddant yn gwneud cais am ryddhad treth a beth ddylai ddigwydd i'w cyfranddaliadau pan fyddant yn marw.

Bydd angen cyfeiriadau llawn a chyfeiriadau e-bost arnoch at ddibenion gweinyddol ond gwnewch yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data drwy gael caniatâd i ddefnyddio enwau, cyfeiriadau a chyfeiriadau e-bost at ddibenion cyfathrebu heblaw rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag aelodaeth. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw derfyn oedran yn glir ac nad oes unrhyw gamgymeriadau o ran isafswm ac uchafswm y buddsoddiad.

Ceisiadau ar-lein

Mae rhai cymdeithasau wedi defnyddio ffurflenni digidol a chyfryngau cymdeithasol yn llwyddiannus i sicrhau eu bod yn gallu dal y gynulleidfa sydd fwyaf tebygol o danystrifio i gyfranddaliadau ar-lein ac wedi dyfeisio eu dulliau eu hunain o wneud cais ar-lein. Mae eraill wedi lanlwytho eu dogfennau cyfranddaliadau i'w gwefan er mwyn cael mynediad hawdd iddynt.

Serch hynny, ateb newydd ac effeithiol i hyn yw drwy wefan cyllido torfol sy'n caniatáu platfform prynu cyfranddaliadau ar-lein sy'n gosod ffi canran ar geisiadau. Mae'n caniatáu i gefnogwyr ddarganfod popeth am y cynnig cyfranddaliadau cymunedol, cofrestru fel aelod a phrynu cyfranddaliadau mewn proses gyfleus lle nad oes angen ffurflenni cais a phostio. Cymerir taliad drwy ddebyd uniongyrchol neu drosglwyddiad banc pan ddaw'r cynnig cyfranddaliadau i ben yn llwyddiannus.

A yw eich dogfen yn gyflawn?

Defnyddiwch y rhestr wirio hon i asesu a yw'r holl wybodaeth bwysig wedi'i chynnwys yn y ddogfen.

Rhestr wirio

- ☐ Rhif cofrestru'r gymdeithas
- ☐ Enw a chyfeiriad cofrestredig y Gymdeithas
- ☐ Swyddogion y Gymdeithas – a rhwch fanylion cyswllt o leiaf un Swyddog
- ☐ Manylion ethol Swyddogion yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol
- ☐ Strwythur cyfreithiol
- ☐ Disgrifiad o'r strwythur cyfreithiol – h.y. Cymdeithas Budd Cymunedol a gofrestrwyd gan y FCA (ond heb ei hawdurdodi gan y FCA)
- ☐ Un aelod un bleidlais, beth bynnag fo maint y cyfranddaliad
- ☐ Gwarged er budd y gymuned
- ☐ Atebolrwydd cyfyngedig aelodau
- ☐ Naill ai uchafswm buddsoddiad statudol (£100,000 ar hyn o bryd) neu gosodwch eich un eich hun
- ☐ Etholiadau pwyllgor yn flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol
- ☐ Terfyn oedran ar gyfer aelodau (bydd hyn wedi'i sefydlu pan fydd rheolau'n cael eu cofrestru)

Cyfranddaliadau cymunedol

- ☐ Ni all wynebwerth gynyddu
- ☐ Ni ellir eu trosglwyddo ac eithrio adeg marwolaeth neu fethdaliad
- ☐ Gellir eu tynnu allan ar gais ac yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor
- ☐ Telir llog yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor ac fel y pleidleisiwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol
- ☐ Heb eu diogelu gan y FCA felly heb hawl i ombwdsmon
- ☐ Marc Safonol Cyfranddaliadau Cymunedol (os caiff ei ddyfarnu)

Y cynnig cyfranddaliadau

- ☐ Pwrpas y buddsoddiad, y weledigaeth a'r amcanion
- ☐ Amseriad y cynnig (dyddiadau dechrau/gorffen)
- ☐ Targedau'r cynnig cyfranddaliadau (lleiafswm i ganiatáu i'r prosiect fynd yn ei flaen, targed optimwm a fydd yn cyflawni eich cynllun busnes, a'r targed uchaf, y byddech yn gwrthod ceisiadau cyfranddaliadau y tu hwnt iddo)
- ☐ Cyfanswm yr arian sydd angen ei godi'n gyffredinol ac o ble daw'r balans arian
- ☐ Adenillion cymdeithasol a ragwelir
- ☐ Adenillion ariannol a ragwelir a phryd y daw hyn yn daladwy
- ☐ Argaeledd y Cynllun Busnes
- ☐ Telerau tynnu cyfranddaliadau allan, h.y. cyfnod clymu, cap ar dynnu allan
- ☐ Sylw i ffactorau risg
- ☐ Trefniadau wrth gefn os bydd y cynnig cyfranddaliadau yn methu
- ☐ Ad-daliad os bydd y cynnig cyfranddaliadau yn methu
- ☐ Argymhelliad i gael cyngor ariannol annibynnol
- ☐ Egluro rhyddhad treth (os yw'r cynnig cyfranddaliadau yn gymwys)
- ☐ Sut i wneud cais

Rhyddhad treth ar gyfranddaliadau cymunedol

Mae Cyllid a Thollau EF (CThEF) yn gweithredu cynlluniau rhyddhad treth i annog buddsoddiadau mewn mentrau preifat a chymunedol. Mae hyn yn cynnwys y Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau (SEIS) a'r Cynlluniau Buddsoddi mewn Mentrau (EIS).

Cyn datblygu cynnig cyfranddaliadau cymunedol, mae'n bwysig cael cyngor ynglŷn â'r tebygolrwydd y bydd eich menter benodol yn gymwys am ryddhad treth. <https://www.gov.uk/guidance/venture-capital-schemes-apply-for-advance-assurance>

Gall Plunkett UK eich cyfeirio ar adran berthnasol CThEF, sef adeg cyhoeddi:

Canolfan Fenter Cwmnïau Bach (SCEC)

Ffôn: **0300 123 1083**

E-bost: enterprise centre@hmrc.gsi.gov.uk

Mae gallu cynnig rhyddhad treth ar gyfranddaliadau cymunedol wedi dangos cynnydd amlwg yn swm y buddsoddiad mewn cymdeithasau. Mae maint y rhyddhad (gellir gwrthbwysu 30% o'r swm a fuddsoddiwyd yn erbyn rhwymedigaethau treth, neu yn achos SEIS, 50%) ynghyd â'r ffordd gymharol syml o wneud cais, yn gwneud hwn yn opsiwn deniadol i gymdeithasau, ac mae'n werth ystyried y broses ymgeisio am ryddhad treth yn eich amserlen.

Os yw busnes cymunedol yn dymuno cynnig rhyddhad treth i'w fuddsoddwyr, mae'n ddoeth gwneud cais yn y lle cyntaf i weld a yw'n gymwys drwy gwblhau proses sicrwydd ymlaen llaw.

Ar gyfer cymdeithas sy'n cynnig SEIS neu EIS, bydd hyn yn golygu anfon copi o'i rheolau a dogfen cynnig cyfranddaliadau ddrafft, ynghyd â ffurflen Sicrwydd Ymlaen Llaw y Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau, y gellir ei lawrlwytho o www.gov.uk.

Dylech ganiatáu wyth wythnos neu fwy i'r cais gael ei ystyried.

Os bydd y busnes cymunedol yn mynd yn ei flaen, ar ôl pedwar mis o fasnachu, gall wneud cais ffurfiol drwy ddefnyddio'r ffurflen briodol sydd ar gael ar gais ar gyfer y SCEC neu wefan CThEF. Ar yr adeg hon, mae'n rhaid cyflwyno rhestr o'r holl fuddsoddwyr hynny a fydd yn gofyn am ryddhad treth – felly mae'n arfer da sicrhau, wrth wneud cais am gyfranddaliadau, y gofynnir i bob buddsoddwr nodi (drwy flwch ticio, fel arfer) a fyddent yn manteisio ar y cynllun rhyddhad treth. (Sylwer: os yw'r sefydliad eisoes yn masnachu gall wneud cais ar unwaith. Nid yw sicrwydd ymlaen llaw yn broses orfodol).

Nodweddion allweddol

SEIS – mae rhyddhad treth yn cyfateb i 50% o'r buddsoddiad

Ni ellir derbyn y cais gan y SCEC oni bai bod y cwmni wedi bod yn masnachu am o leiaf bedwar mis. Ni ellir chwaith ei dderbyn os cafodd ei gyflwyno'n hwyrach na dwy flynedd ar ôl diwedd y flwyddyn asesu lle rhyddhawyd y cyfranddaliadau (neu ddwy flynedd ar ôl diwedd y cyfnod o bedwar mis os yw hynny ar ôl diwedd y flwyddyn asesu honno).

Mae'r gyfradd rhyddhad treth uwch o dan SEIS ar gael i gynlluniau llai o dan rai amodau llym. Ni ddylai asedau gros a ddelir ar hyn o bryd fod yn fwy na £200,000 mewn gwerth, rhaid i'r busnes fod yn llai na dwy flwydd oed, ac ni ddylid cael mwy na 25 o weithwyr.

Ceir uchafswm buddsoddiad cronno! fesul cwmni/ cymdeithas ar gyfer SEIS o £150,000, tra bod y terfyn ar gyfer EIS yn £5 miliwn. Mae hyn yn golygu, ar gyfer cynigion cyfranddaliadau gyda thargedau o gwmpas £150,000, bod yn rhaid meddwl yn ofalus pa gynllun i fynd amdano. Mae'r holl fanylion i'w cael yn hawdd ar wefan CThEF, ac oherwydd bod newidiadau cyson i ddeddfwriaeth treth, mae'n werth gwirio'n ofalus.

EIS – mae rhyddhad treth yn cyfateb i 30% o'r buddsoddiad

I fod yn gymwys am SEIS/EIS:

- Rhaid cadw cyfranddaliadau am dair blynedd o leiaf.
- Rhaid talu am bob cyfranddaliad gyda risg lwyr, heb unrhyw hawliau ffafriol i unrhyw fath o adenillion ariannol neu dynnu cyfranddaliadau allan.
- Mae'r rhan fwyaf o alwedigaethau'n gymwys, ond nid pob un; ac mae hyn yn amrywio rhwng SEIS/EIS, felly edrychwch ar y wefan.

Ymhlith y meysydd problematig y mae cymdeithasau'n dod ar eu traws mae'r cyfyngiad ar brydlesu neu osod, sydd wedi'i ddehongli fel un sy'n atal cymhwysra.

Enghraifft dda o eiriad ar gyfer y ddogfen cynnig cyfranddaliadau fyddai:

'Rydyn ni wedi cael sicrwydd ymlaen llaw y bydd y Cynnig Cyfranddaliadau hwn yn gymwys am ryddhad treth. Byddai hyn yn golygu y gall trethdalwyr cymwys sy'n prynu cyfranddaliadau am unrhyw swm hyd at yr uchafswm o £X wneud cais am ryddhad treth incwm sy'n gyfartal i xx% o'r swm a fuddsoddwyd, ar yr amod bod y cyfranddaliadau'n cael eu cadw am dair blynedd o leiaf. Am fwy o wybodaeth, ewch i: <http://www.hmrc.gov.uk/>

Bydd y Gymdeithas yn rhoi'r ffurflen briodol i bob buddsoddwr cymwys i'w galluogi i hawlio rhyddhad treth. Cyfrifoldeb pob buddsoddwr yw gwneud ei ymholiadau ei hun ac i fodloni ei hun a yw'n gymwys am ryddhad treth o'r fath.'



Tystysgrifau cyfranddaliadau a chofrestr cyfranddaliadau

Tystysgrifau cyfranddaliadau

Nid yw tystysgrifau cyfranddaliadau yn orfodol ond maent fel arfer yn cael eu croesawu gan fuddsoddwyr.

Mae'n well peidio â'u dosbarthu nes bod y cynnig cyfranddaliadau wedi'i gwblhau a bod y prosiect yn bendant yn mynd yn ei flaen. Os yw'n debygol y bydd oedi rhwng casglu'r arian a datgan llwyddiant, yna rhowch dderbynebaw am y cyfranddaliadau yn y cyfamser. Gall tystysgrif cyfranddaliadau fod yn syml iawn.

Gwybodaeth i'w chynnwys fan lleiaf

- Rhif y dystysgrif
- Teitl llawn eich sefydliad, ei rif cofrestredig a'i statws
- Wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.
- Argymhellwn eich bod yn defnyddio'r geiriau: Cyhoeddwyd yn unol â darpariaethau rheolau cofrestredig y Gymdeithas ac yn amodol arnynt
- Nifer y cyfranddaliadau, gwerth y cyfranddaliadau a'r swm a dalwyd
- Dylech gynnwys cyfeiriad y cyfranddaliwr a gallai ystyriaeth ymarferol gynnwys (naill ai ar y dystysgrif cyfranddaliadau ei hun neu mewn dogfen eglurhaol) y geiriau 'Rhowch wybod am unrhyw newidiadau i'r cyfeiriad er mwyn sicrhau bod y gofrestr cyfranddaliadau yn gyfoes')
- Sicrhewch fod y dyddiad rhyddhau wedi'i nodi'n glir

Llofnodi'r tystysgrifau

Nid oes rheidrwydd cyfreithiol i aelod(au) o'r pwyllgor lofnodi'r dystysgrif, ond mae'n werth ei ystyried. Ar yr ochr bositif, mae'n ychwanegu hygrededd; ar yr ochr negyddol, gall fod yn llawer o waith!

Cofrestr cyfranddaliadau

Rhaid i'r gofrestr cyfranddalwyr gael ei diweddarau a'i gweinyddu gan rywun sy'n barod i roi sylw gofalus i gywirdeb. Mae angen cadw'r cyfeiriadau mewn ffordd gyson fel y gellir cynhyrchu labeli cyfeiriadau yn hawdd. Os byddwch yn gofyn am gyfeiriadau e-bost ac yn gynnwys y rhain ar eich cronfa ddata, sicrhewch na chaiff y rhain eu defnyddio na'u rhyddhau heb ganiatâd. Cadwch y gronfa ddata yn ddiogel o dan reolaeth cyfrinair.

Byddwch yn ofalus wrth ddyddio'r cofnodion, oherwydd bydd y broses o dynnu cyfranddaliadau allan yn amser-benodol.


Gallwch roi sicrwydd i'ch cyfranddalwyr y bydd y Pwyllgor Rheoli yn cadw'r gofrestr cyfranddaliadau mewn amgylchedd cyfrinachol dan reolaeth cyfrinair ond, fel mewn cwmni preifat, mae hawl gan gyfranddalwyr i wneud cais i weld y gofrestr cyfranddaliadau.

Serch hynny, gallwch ragweld y bydd mwyafrif helaeth y cyfranddalwyr yn parchu efallai na fydd eraill yn dymuno i'w cyfranddaliad fod yn wybodaeth gyhoeddus.

Rhaid i'r gofrestr gynnwys:

- Enwau a chyfeiriadau aelodau a'r dyddiadau pan gawsant eu cofrestru'n aelodau / peidio â bod yn aelodau.
- Enwau a chyfeiriadau pwyllgor rheoli'r Gymdeithas (a dyddiadau dechrau yn y rôl)
- Datganiad o nifer y cyfranddaliadau sydd gan bob aelod a'r swm a dalwyd amdanynt (neu y cytunwyd i ystyried eu talu)
- Datganiad o eiddo neu fenthyciadau eraill sydd gan y Gymdeithas fesul aelod (nid eiddo personol neu fenthyciadau)

Mae pob un yn gyfrinachol, ond mae'r ddau gyntaf 'ar gael i'w harchwilio' – hynny yw, gall aelod ofyn i'r Ysgrifennydd weld y wybodaeth.



Geirfa

Clo asedau: Cymal cyfreithiol sy'n atal asedau cwmni neu gymdeithas (incwm neu gyfalaf) rhag cael eu defnyddio er budd preifat yn hytrach na dibenion datganedig y sefydliad. Mae clo asedau wedi'i gorffori yn strwythur ffurfiol Cymdeithas Budd Cymunedol, Cwmni Buddiannau Cymunedol neu sefydliad elusenol.

Ased o werth cymunedol: Tir neu eiddo o bwys i gymuned leol sy'n destun amddiffyniad ychwanegol rhag datblygiad o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011.

Bencom: Talfyriad o 'Cymdeithas er budd y gymuned', a elwir hefyd yn Gymdeithas Budd Cymunedol.

Cymdeithas Budd Cymunedol: Cymdeithas Budd Cymunedol corfforedig er budd y gymuned. Nid yw elw'n cael ei ddosbarthu ymhlith aelodau ond yn hytrach yn cael ei ddychwelyd i'r gymuned. Rhaid iddo hefyd gael ei sefydlu gydag amcanion cymdeithasol i gynnal busnes neu fasnach. Wedi cofrestru gyda'r FCA.

Cyfranddaliad cymunedol: Math o gyfranddaliad a gynigir gan Gymdeithas Budd Cymunedol, y gellir ei dynnu allan o'r gymdeithas ei hun. Ni all cyfranddaliad cymunedol godi mewn gwerth ond gall ddisgyn, yn ôl disgrisiwn y cyfarwyddwyr, os oes gan gymdeithas golledion cronedig hirdymor.

Cymdeithas Gydweithredol: Wedi'i strwythuro a'i rhedeg gydag egwyddorion cydweithredol. Nodwedd allweddol menter gydweithredol yw perchnogaeth a rheolaeth gan aelodau. Wedi cofrestru gyda'r FCA.

Cynllun Buddsoddi mewn Mentrau (EIS): Yn cynnig rhyddhad treth ar gyfalaf cyfranddaliadau mewn busnesau cymwys – gweler: <http://www.hmrc.gov.uk/eis>

Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA): Mae'r ddau fath o Gymdeithas Budd Cymunedol wedi'u cofrestru gyda'r FCA, ond nid yw'r FCA yn rheoleiddio buddsoddiad mewn Cymdeithasau Budd Cymunedol, ac felly ni all aelodau wneud cais i Gynllun lawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS) ac nid oes ganddynt hawl i gwyno i'r Ombwdsmon Ariannol.

Cynllun cyllido: Rhan o'r broses o gynllunio busnes lle mae'r amrywiol ffyrdd o ariannu gweithgareddau cymdeithasau (trwy gyfranddaliadau, grantiau, rhoddion a benthyciadau) yn cael eu hasesu a'u cynllunio.

Cynnig aelodaeth: Math o gynnig cyfranddaliadau cymunedol lle mae'r swm a fuddsoddir mewn cyfalaf cyfranddaliadau wedi'i gyfyngu i swm nominal. Gallai hyn fod yn addas ar gyfer prosiect lle mae lefel yr aelodaeth yn bwysicach na'r arian a godwyd, naill ai oherwydd bod gan y prosiect ei hun gostau cychwynnol isel neu oherwydd bod y rhan fwyaf o'r cyllid (os oes angen cyllid) wedi'i gaffael mewn rhyw ffordd arall. e.e. grantiau.

Cynnig agored: Ffordd o ddisgrifio cynnig cyfranddaliadau cymunedol nad yw'n amodol ar y swm targed neu amserlen, ond sy'n barhaus.

Cynnig arloesi: Cynnig cyfranddaliadau cymunedol yw hwn i aelodau gwreiddiol ar gyfer cyfalaf risg uchel i fod yn 'barod ar gyfer buddsoddiad'. Yn aml mae'r rhai sy'n frwd dros brosiect yn barod i roi eu dwylo yn eu pocedi cyn i'r prosiect gael ei ffurfio'n llawn; mae diffinio'r cyfalaf cychwynnol hwn fel cyfranddaliadau arloesi felly'n cynnig o leiaf yr un hawliau a buddion â chyfranddalwyr eraill, pe bai'r prosiect yn llwyddo.

Rheolau enghreifftiol Plunkett UK: Set o reolau a luniwyd yn benodol ar gyfer cymdeithasau budd cymunedol sydd, yn ogystal â chwmpasu pob agwedd ar weinyddiaeth cymdeithasau budd cymunedol, hefyd yn caniatáu ar gyfer tynnu cyfalaf cyfranddaliadau allan ac sydd wedi awgrymu cyfyngiadau tynnu cyfranddaliadau allan. Mae rheolau Plunkett UK yn rheolau derbyniol at ddibenion rhyddhad treth.

Cynllun Buddsoddi Cychwynnol mewn Mentrau (SEIS): Fe'i gelwir hefyd yn EIS Cychwynnol, ac mae'n cynnig buddion treth i unigolion sy'n buddsoddi mewn busnesau bach newydd ac sydd yng nghamau cynnar y busnes yn y DU – gweler: <https://www.gov.uk/topic/business-tax/investment-schemes>

Cynnig â chyfyngiad amser: Cynnig cyfranddaliadau cymunedol sy'n cael ei lansio gyda tharged i'r swm buddsoddi ac amserlen benodedig, lle os nad yw'n llwyddiannus, h.y. nad yw'r lefel angenrheidiol o arian yn cael ei chyflawni erbyn y terfyn amser penodedig, bydd yr arian yn cael ei ddychwelyd i fuddsoddwyr. Mae'n bosib cyhoeddi estyniad i'r amserlen.

Dolenni defnyddiol

www.hmrc.gov.uk/eis/

www.communityshares.org.uk

www.plunkett.co.uk

Ynglŷn â Plunkett UK

The Plunkett UK helps rural communities UK-wide to tackle the issues they face, through promoting and supporting community business.

Mae Plunkett UK yn helpu cymunedau gwledig ledled y DU i fynd i'r afael â'r problemau sy'n eu hwynebu, drwy hyrwyddo a chefnogi busnesau cymunedol.

Mae busnesau cymunedol yn fentrau y mae aelodau'r gymuned ac eraill yn berchen arnynt ac yn eu rhedeg yn ddemocrataidd, ar ran y gymuned. Mae sawl math yn bodoli, gan gynnwys siopau, tafarndai, coetiroedd ac unrhyw beth sy'n addas ar gyfer perchnogaeth gymunedol. Yn ogystal â datblygu a diogelu asedau a gwasanaethau gwerthfawr, mae busnesau cymunedol yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys teimlo'n ynysig, unigrwydd, lles, gwaith a hyfforddiant.

Rôl Plunkett UK yw eirioli a hyrwyddo'r cysyniad o fusnes cymunedol i sicrhau bod cymunedau ledled y DU yn ymwybodol o'r model a'i botensial; wedi'u grymuso i gymryd camau eu hunain; a gweithredu mewn amgylchedd cefnogol. Mae Plunkett UK yn cynnig cyngor, cymorth a hyfforddiant ymarferol i helpu cymunedau i sefydlu a rhedeg busnesau cymunedol llwyddiannus gyda chyfraddau goroesi hirdymor.

Mae Plunkett UK yn falch o'i wreiddiau; fe'i sefydlwyd gan yr arloeswr cydweithredol Gwyddelig, Syr Horace Plunkett yn 1919. Ers bron i 100 mlynedd, mae wedi cefnogi cymunedau gwledig i ffynnu drwy fusnesau cymunedol ac i wella ansawdd bywyd i bawb. Heddiw, mae'n cynrychioli buddiannau dros 600 o fusnesau cymunedol gwledig y mae wedi helpu i'w sefydlu a 400 arall sydd yn y broses o'u sefydlu, yn ogystal â'r rhai sydd newydd ddechrau ar y siwrnai.

Sefydliad aelodaeth yw Plunkett UK, ac rydyn ni'n annog y rhai rydyn ni'n gweithio gyda nhw i ddod yn aelodau, ac yn eu tro, ein helpu i wneud gwahaniaeth i fywydau'r rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

Mae dod yn aelod o Plunkett UK yn gwneud cyfraniad hollbwysig at gynnal ein gwasanaeth i helpu a chefnogi busnesau cymunedol ledled y DU ac, yn bwysig, yn ymgysylltu â busnesau cymunedol i helpu i lywio datblygiad ein gwasanaeth yn ogystal â chyfrannu at ymgynghoriadau eiriolaeth wledig.

Cysylltwch â ni

Mae buddion aelodaeth Plunkett UK yn cynnwys ystod o gefnogaeth o dderbyn gwybodaeth, cyngor, cyfleoedd rhwydweithio, gwasanaethau am bris rhatach, digwyddiadau a bod yn rhan o fudiad ehangach. Mae gennym nifer o becynnau aelodaeth ar gael, yn dechrau am £75, felly cysylltwch â ni i drafod yr aelodaeth orau ar gyfer eich cam chi o'r siwrnai fusnes cymunedol.

I gael gwybod mwy am aelodaeth Plunkett UK, e-bostiwch membership@plunkettuk.co.uk

Aelodaeth Plunkett UK

Cysylltwch â'r Tîm Busnes Cymunedol i ofyn am gymorth ar sefydlu neu redeg eich busnes cymunedol. Rydyn ni wastad yn falch o glywed wrthyh!

Ffôn: +44 (0)1993 630022

E-bost: info@plunkettuk.co.uk


Cyfeiriad: Plunkett UK, The Quadrangle, Woodstock, Oxfordshire OX20 1LH, United Kingdom.

www.plunkett.co.uk

Ynghylch Plunkett

Mae Plunkett UK yn elusen genedlaethol sy'n cefnogi pobl mewn ardaloedd gwledig i sefydlu a rhedeg ystod eang o fusnesau sy'n eiddo i'r gymuned. Gwnawn hyn i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y DU gyfan ar gyfer cymunedau gwledig gwydn, ffyniannus a chynhwysol. Mae busnesau sy'n eiddo i'r gymuned yn cael eu perchnogi a'u rheoli gan aelodau'r gymuned sydd â llais cyfartal a democrataidd yn y modd y caiff y busnes ei redeg.

Mae Plunkett wedi hyrwyddo'r model perchnogaeth gymunedol ers dros 100 mlynedd oherwydd ei hanes o ddarparu busnesau gwell i bobl, cymunedau, yr economi, a'r amgylchedd. Heddiw, rydym yn cynrychioli 800 o fusnesau masnachu sy'n eiddo i'r gymuned a 500 arall sydd yn y broses o sefydlu. Mae Plunkett yn codi ymwybyddiaeth o'r model busnes cymunedol, yn darparu cymorth busnes cymunedol ymarferol, ac yn cynrychioli ein haelodau trwy rwydweithio, ymchwilio ac eirioli gyda'r llywodraeth, melinau trafod a chyllidwyr.



Plunkett UK

The Quadrangle
Woodstock
Oxfordshire OX20 1LH

+44 (0)1993 630022
info@plunkett.co.uk

plunkett.co.uk   

Mae Plunkett UK yn elusen gofrestredig, rhif CC 313743 (Cymru a Lloegr) a rhif SC 045932 (yr Alban). Mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant, rhif cofrestredig 00213235.

